# Crynodeb Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangywer

| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau |
|---|---|---|---|
| 13/11/23 | Neb | **Presennol:** D Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts, W D Williams<br>Cynghorydd Alan Jones Evans<br>Lis Puw (Clerc) | **Ariannol:** Cymeradwywyd talu am dorri gwair y fynwent; mae taliad £40 ico yn cael ei wneud trwy Debyd Uniongyrchol.<br><br>SLCC – cytunwyd i gyfrannu £40 i Gyngor Cymuned Llanuwchllyn fel rhan o dal aelodaeth y gymdeithas glercod.<br><br>Derbyniwyd pris am greu llwybr yn y fynwent. Penderfynwyd holi a oes grant ychwanegol ar gael.<br><br>**Cynllunio:** Cadarnhawyd cymeradwyo cais NP5/70/LB9R Caniatâd Adeilad Rhestredig i dynnu'r ports presennol, adeiladu estyniad a newidiadau cysylltiedig, Plas Gywair.<br><br>**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf**: Nos Lun, 15/1/24. Bydd yn cynnwys Is-bwyllgor Cyllid (caeedig). |